**PWYLLGOR IAITH**
**29 Ebrill 2021**
**10:00 yb**

**YN BRESENNOL**

**Y CYNGHORWYR:** Beca Brown, Elwyn Edwards, Alan Evans, Aled Evans, Alwyn Gruffydd, Judith Humphreys, Elwyn Jones, Eric M Jones, Cai Larsen, John Pughe Roberts, Eirwyn Williams ac Elfed Williams.

**SWYDDOGION:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Gwenllïan Mair Williams (Ymgynghorydd Iaith), Siôn Elwyn Hughes (Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg), Llio Mai Hughes (Swyddog Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg), Lowri Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) a Natalie Lloyd Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**ERAILL A WAHODDWYD:** Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Aelod Cabinet Cefnogaeth Corfforaethol) ac Edgar Wyn Owen (Cadeirydd y Cyngor).

**<u>Yn bresennol ar gyfer eitem 5:</u>**

Huw Williams (Pennaeth YGC).

**<u>Yn bresennol ar gyfer eitem 6:</u>**

Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorwyr Elin Walker Jones ac Kevin Morris Jones.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 28ain Ionawr, 2021 fel rhai cywir.

Rhannodd y Cadeirydd ymateb a dderbyniwyd gan yr AS Ken Skates. Nododd y llythyr y bydd penderfyniad ynghylch dyfodol y rhaglen Arfor yn cael ei wneud wedi iddynt dderbyn gwerthusiad o'r rhaglen bresennol.

## 5. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG 2019 - 2023: CYFRANIAD ADRAN YMGYNGHORIAETH

Cyflwynodd y Pennaeth Adran YGC ei adroddiad yn amlygu'r camau a gymerwyd o fewn yr adran er mwyn hybu'r Gymraeg ymysg staff. Cododd y pwyntiau pwysig fel a ganlyn;

- Nododd bod yr adran wedi profi llwyddiant drwy gydweithio gyda'r Swyddogion Iaith er mwyn eu rhoi ar ben ffordd gyda'u hymdrechion.
- Eglurodd bod staff wedi cwblhau Hunan-asesiadau iaith i'w clymu i fewn i'r drefn ac o ganlyniad wedi sylweddoli ba pwyslais sydd ar ddefnyddio'r iaith.
- Ategodd bod canran uchel o staff di-gymraeg yn yr adran o gymharu ag adrannau eraill o fewn y Cyngor.
- Rhannodd bod 92% o aelodau staff yn cwrdd â gofynion eu swydd ond eglurodd ei bod wedi cymryd peth amser i gymryd fan hyn drwy wersi a dulliau eraill.
- Nododd bod y cynllun cyfeillion wedi helpu i sicrhau bod defnydd iaith yn cael ei hyrwyddo yn naturiol ymysg siaradwyr Cymraeg.
- Rhannodd enghraifft o un swyddog a ymunodd yn ystod y cyfnod clo gan nodi bod Swyddog arall yn ei chefnogi i gychwyn sgyrsiau yn y Gymraeg.
- Eglurodd mai asgwrn cefn y llwyddiant yw gwersi Cymraeg drwy *Teams* a drwy'r bartneriaeth â'r Brifysgol - nododd bod hyn ar y cyd efo cyswllt rheolaidd gyda swyddogion Iaith.
- Rhoddodd bwyslais ar yr aelodau staff canlynol; Alex Jones, Nansi John ac Owain Angus Duncan sydd wedi llwydo â'u hymdrechion ac o ganlyniad i hynny wedi ennill gwobr goffa Dafydd Orwig.
- Nododd o 2014 ymlaen bod staff yn mynd i gyfweliadau a chyfarfodydd mewn perthynas â chymwysterau proffesiynol ac yn Defnyddio'r Gymraeg

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y sylwadau canlynol:-

- Gofynnodd aelod beth yw polisi penodi'r adran er mwyn sicrhau penodi staff sy'n siarad Cymraeg. Ategodd y byddai'n werthfawr bod mewn sefyllfa lle gall y Cyngor ysgogi mwy o siaradwyr Cymraeg i ddilyn gyrfaoedd technegol ac arbenigol er mwyn osgoi'r trafferthion penodi.
- Diolchodd yr aelod am y cyflwyniad ac yn ychwanegol at y Swyddogion Iaith am weithio'n ddiwyd ym mhob adran.
- Gofynnodd a oedd cyfle i ddylanwadu ar y rhan ddeiliad a chontractwyr allanol i ddefnyddio Cymraeg pan maent yn delio a'r adran YGC.
- Holodd aelod faint o staff sy'n gweithio o fewn yr adran er mwyn gosod cyd-destun i'r ffigyrau oedd wedi cwblhau'r hunanasesiad.
- Awgrymodd aelod y dylai'r Cyngor weld yr elw buan o'r cydweithio sydd wedi bod rhwng y Cyngor a'r system addysg leol i hyrwyddo pynciau STEM ymysg disgyblion lleol.
- Mynegodd aelod bod yr adroddiad yma yn dod gan adran sy'n wynebu llawer mwy o heriau nag eraill i benodi siaradwyr Cymraeg oherwydd y sgiliau penodol sydd angen.
- Ategodd at hyn gan ofyn ba ymdrech sy'n cael ei wneud i gyrraedd y gweithlu arbenigol ar draws Gymru at ddibenion penodi.
- Holodd aelod sut mae'r adran yn sicrhau defnydd o dermau technegol Cymraeg cywir.

Mewn ymateb i rai o'r sylwadau nododd y Pennaeth Adran YGC;

- O ran swydd disgrifiad mae ymgais barhaol i sicrhau bod penodiadau yn cyrraedd y dynodiad iaith ofynnol, fodd bynnag nid oes gan bob arbenigwr y maes sgiliau iaith. Parhaodd gan nodi bod yr adran yn ceisio trosi siaradwyr Saesneg i'r Gymraeg drwy gynnig gwersi.
- Datganodd bod gan yr adran ymgais i sicrhau bod staff yn rhugl y Gymraeg a bod y rhai sy'n llwyddo yn parhau i ddefnyddio a dysgu mwy am y Gymraeg.
- Ategodd bod yr adran YGC yn gweithio i sawl corff er mwyn dod ag arian i'r Cyngor ac felly yn gwerthu sgiliau peirianyddol a thechnegol. Parhaodd i nodi nad oedd y sgiliau gan siaradwyr Cymraeg ar bob achlysur.
- Fel datrysiad i hynny, nododd y Pennaeth eu bod yn cydweithio efo Coleg Menai/ Llandrillo a Phrifysgol Glyndŵr er mwyn creu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddilyn gyrfaoedd technegol ac arbenigol.
- Rhannodd her arall sy'n wynebu'r adran, sef bod cyflogau Cyngor o fewn yr adran yn uchel yn lleol, fodd bynnag bod yna gystadleuaeth yn genedlaethol gan i gyflogau tueddu i fod yn uwch ac yn denu staff Cymraeg.
- Nododd bod cytundebau yn nodi bod y Gymraeg yn flaenoriaeth, a rhoddir pwyslais ar yr iaith wrth ymdrin â chwmnïau. Rhoddwyd enghreifftiau o gwmnïau o Loegr yn datblygu ymwybyddiaeth iaith o ganlyniad i gydweithio â'r adran.
- Cytunodd bod angen amryw o ddulliau er mwyn hyrwyddo a hybu'r Gymraeg o fewn yr adran gan ei fod yn bwysig cadw'r Gymraeg yn iaith fyw sy'n cael ei weld yn addasu ymysg meysydd amrywiol.

**PENDERFYNWYD;**

**a) Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**
**b) Dymuno'n dda i'r adran yn eu hymgais barhaol i hyrwyddo defnydd y Gymraeg ymhellach ymysg eu staff.**

## 6. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG 2019 - 2023: CYFRANIAD ADRAN ECONOMI A CHYMUNED

Cyflwynodd y Pennaeth Adran Economi a Chymuned ei hadroddiad gan nodi'r ymatebion a phrif bwyntiau o ran hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn yr adran. Ategodd bod yr adran Economi a Chymuned mewn sefyllfa wahanol i adran fel yr YGC gan fod rhan fwyaf o'r staff yn gallu'r Gymraeg ac yn ei ddefnyddio oherwydd natur eu gwaith.

Cychwynnodd gan bwysleisio bod 97% o staff yr adran wedi cyrraedd y dynodiad iaith ddisgwyliedig. Ategodd bod mwy o waith i wneud ymysg staff sydd wedi bod yn yr adran am amser hir ac yn gallu'r Gymraeg ond ddim yn ei ddefnyddio. Nododd nad oedd heriau recriwtio a bod staff newydd ieuengach yn tueddu i ddefnyddio'u Cymraeg yn naturiol.

Cyfeiriodd at yr adroddiad sy'n cynnwys dolenni perthnasol ar gyfer mwy o wybodaeth ynghylch hyrwyddo'r iaith. Tynnodd sylw at y prif bwyntiau fel a ganlyn;

- Bod gan yr adran gobeithion y byddai modd cyllido dilyniant i gynllun Arfor os bydd arian ar gael.
- Fuodd cynllun i gyflwyno cerddoriaeth Gymraeg i fusnesau sy'n anghyfarwydd a diwylliant Cymreig yn un llwyddiannus er mwyn hybu'r Gymraeg o fewn y sector Twristiaeth.
- Ymfalchïodd yn y gwasanaeth llyfrgelloedd lle mae 100% o staff yn siaradwyr Cymraeg ac yn ei ddefnyddio'n naturiol. Fel gweithwyr yn y gymuned, cydnabuwyd bod ganddynt rôl ychwanegol fel hyrwyddwyr iaith ymysg llyfrgellwyr. Rhannodd lythyr gan un o drigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac wedi ymddiddori yn yr iaith o ganlyniad i'r ymdrechion gan y staff.
- O ran cytundebau gyda chwmnïau allanol, nododd mai'r gwasanaeth hamdden oedd yr her fwyaf iddynt er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg, yn arbennig mewn ardaloedd llai Cymreig yn y Sir.
- Eglurodd bod hyn yn parhau i gael sylw wrth i gwmni Byw'n Iach gymryd yr awenau a fod y cwmni wedi cymryd camau bras i ymateb i'r sefyllfa. Sicrhaodd fod yr Adran yn monitro fod y cwmni yn glynu at bolisi iaith y Cyngor fel rhan o'u contract
- Nododd bod rhwystrau mewn rhai achosion, er enghraifft mae diffyg Cymraeg mewn cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru ac asiantaethau cenedlaethol a rhagwelir bydd diffyg Cymraeg mewn cyfarfodydd yn dod yn fwy o her gyda Llywodraeth Prydain pan yn trafod grantiau, gan nad ydi'n debygol y bydd Llywodraeth Cymru'n gyfrifol dros ddyrannu'r arian yma i'r dyfodol.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:-

- Mynegodd aelod ei thristwch na fydd Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am ddyrannu cyllid i raglenni newydd ac ategodd y byddai effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg.

- Croesawu twristiaeth gynaliadwy - gwerthu lle fel cyrchfan yn negyddol, neu ormodedd yn dinistrio beth mae'r bobl yn dod i'w cael.
- Ymfalchïodd bod newid pwyslais ar y math o dwristiaeth sy'n fuddiol i ardal fel Gwynedd sef y math cynaliadwy.
- Cytunodd aelod bod angen i gwmni Byw'n Iach ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg ymysg eu staff. Gofynnodd sut mae hyn yn cael ei fesur a herio gan yr adran.
- Gofynnodd aelod am fwy o wybodaeth ynghylch y gwahaniaeth fydd rhwng delio a grantiau o Lundain yn hytrach o Gaerdydd a faint o ddylanwad fydd gan y Cyngor i fynnu defnydd o'r Gymraeg. Ategodd bod eisoes enghraifft gyda'r Bwrdd Uchelgais Economaidd sy'n cael ei arwain fwy gan San Steffan ac mae'n dangos bod dylanwad negyddol ar yr iaith Gymraeg.
- Cyfeiriodd aelod at staff y llyfrgelloedd fel llysgenhadon naturiol yn eu rôl a chwestiynodd a yw'n werth cynnwys hyn yn y swydd ddisgrifiad ar gyfer y dyfodol.
- Cyfeiriodd aelod at y galw am wersi Cymraeg yn mynd drwy'r to, gan bobl sydd eisiau dod ar eu gwyliau. Ategodd eu bod yn gweld y Gymraeg fel rhywbeth sy'n cyfoethogi eu profiad o fod yng Nghymru.
- Nododd aelod ei fod yn rhan o brotocol i bobl yn yr adrannau wybod bod disgwyliad iddynt ddefnyddio'r Gymraeg.

Mewn ymateb i rai o'r sylwadau a'r cwestiynau uchod, nododd y Pennaeth Adran Economi a Chymuned;

- Er mwyn sicrhau twristiaeth gynaliadwy bod angen cyfyngu niferoedd ymwelwyr mewn rhai ardaloedd a bod trafodaeth yn digwydd yn yr adolygiad.
- Bod gwaith monitro gwasanaeth o'r Cyngor yn digwydd i fesur perfformiad cwmni Byw'n Iach gydag Aelod Cabinet yn cwrdd â'r cwmni i herio perfformiad. Ategodd bod data ganddynt, yn ymwneud a chyrhaeddiad staff a dynodiadau iaith swydd.
- Mewn perthynas â defnydd y Gymraeg mewn cyfarfodydd, nododd bod cyfarfodydd rhithiol wedi caniatáu i fwy o Gymraeg cael ei ddefnyddio gan fod meddalwedd fel Zoom yn caniatáu cyfieithu ar y pryd.
- Nad oedd sicrwydd hyd hyn ynghylch trefniadau gydag arian o'r cronfeydd newydd sy'n disodli cyllid Ewropeaidd. Rhagdybir mai Llywodraeth Prydain yng Nghymru fydd yn delio a'r ceisiadau.
- Bod diwylliant Cymreig naturiol ymysg staff Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gan fod rhan fwyaf yn rhugl y Gymraeg. Fodd bynnag cydnabuwyd bod her gyda chyfathrebu a thrafod gyda'r Llywodraethau am ei fod yn digwydd drwy'r Saesneg.
- Mewn ymateb i'r cwestiwn ynghylch staff y Llyfrgelloedd, nododd nad yw'r rôl o fod yn llysgennad i'r iaith yn benodol yn y swydd ddisgrifiad. Fodd bynnag, mae hyrwyddo'r Gymraeg yn rhan naturiol o'r swydd.

Ategodd yr Ymgynghorydd Iaith y pwyntiau canlynol:

- Bod cymal ym mholisi iaith y Cyngor sy'n nodi ei fod yn ddisgwyliedig i staff y Cyngor gyfathrebu yn y Gymraeg. Ategodd bod y polisi dan sylw wrthi'n cael ei ddiwygio a bod cyfle yn y diwygiad i atgoffa staff am y cymal hwn wrth hyrwyddo'r polisi newydd.
- Mewn perthynas â chyfathrebu, mae newid wedi bod dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda 'Teams' yn rhwystr oherwydd diffyg cyfleuster cyfieithu ar y pryd ac nid pawb sy'n fodlon defnyddio Zoom sydd â darpariaeth dda.

**PENDERFYNWYD Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

## 7. POLISI TROSGLWYDDO IAITH YN Y CARTREF LLYWODRAETH CYMRU

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Iaith gwybodaeth ynghylch polisi trosglwyddo iaith yn y cartref gan Lywodraeth Cymru. Ategodd y buodd ymgynghoriad ar ddechrau'r flwyddyn ddiwethaf cyn y cyfnod clo cyntaf, ac o ganlyniad i hyn nad yw'r polisi wedi dod o flaen y pwyllgor fel dogfen ddrafft.

Eglurodd prif ddiben y polisi sef ffocysu ar drosglwyddo iaith o fewn y cartref yn unig a chynnig arweiniad er mwyn galluogi rhieni a gofalwyr i gyflwyno'r Gymraeg i'w plant yn y cartref. Croesawodd yr Ymgynghorydd Iaith y ddogfen gan egluro ei fod yn manylu ar faes allweddol, sef annog rhieni sydd wedi dysgu Cymraeg eu hunain o fewn y system addysg i drosglwyddo'r iaith ar yr aelwyd gyda'u plant hwy.

Eglurodd bod ambell i ddatblygiad ymhellach angen gan gynnwys;

- Datblygu gwell dealltwriaeth ar ymarferion iaith a rhesymau siaradwyr dros beidio trosglwyddo.
- Amseru'r cyhoeddiad sef cyn cyhoeddiad canlyniadau'r cyfrifiad diweddaraf sydd â data defnyddiol ynghylch yr iaith Gymraeg
- Diffyg ystyriaeth i effaith y pandemig Covid-19 ar arferion iaith tra bu'r ysgolion ar gau.
- Diffyg manylder gydag ambell i gam o fewn y polisi a sut i'w gwireddu.
- Ei bod yn anwybyddu teuluoedd lle mae'r Gymraeg yn iaith naturiol.
- Elfennau sut i ysbrydoli plant i ddefnyddio eu Cymraeg ac ail gynnau'r sgiliau drwy gefnogi'r teulu cyfan.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion canlynol:-

- Cytunodd aelodau bod diffyg manylder o fewn y polisi a bod angen enghreifftiau cyfredol o sut y bwriedir gweithredu'r camau.
- Ategodd aelod bod tystiolaeth yn ymddangos mewn ysgolion bod effaith negyddol sy'n deillio o ddefnydd gormodol o sgriniau dros y cyfnod clo wedi newid arferion iaith. Ategodd bod hyn yn cynnwys plant yn siarad Saesneg â'u brodyr a chwiorydd.
- Rhoddodd un aelod sylw bod pwyslais yr adroddiad ar ardaloedd lle mae plant yn ennill eu Cymraeg drwy'r system addysg ond yn peidio â throsglwyddo'r Gymraeg ar yr aelwyd gyda'u plant hwy yn y dyfodol. Ategodd mai rheswm dros hyn yw gan mai Saesneg yw eu mamiaith.
- Mynegodd aelod nad oedd pwyslais ar broblemau sydd fan hyn mewn ardal lle mae Cymraeg yn iaith naturiol o fewn y cartref i'r mwyafrif
- Ategodd aelod at hyn gan nodi nad oes sicrwydd beth fydd effaith tymor hir y cyfnodau clo ar yr iaith gan fod arferion plant wedi newid.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00yb a daeth i ben am

**CADEIRYDD**